AWTTC

# Cylchlythyr
## Mehefin 2026

@AWTTCcymraeg | @AWTTCcomms
cttcg.gig.cymru | awttc.nhs.wales

Os hoffech chi gael y rhifyn hwn yn Saesneg, anfonwch e-bost at **awttc@wales.nhs.uk**

## Newyddion AWTTC




### AWTTC yn cyflwyno gwaith yng Nghyfarfod Blynyddol HTAi 2026, Istanbul

Roedd cyfarfod eleni, a gynhaliwyd rhwng 6–10 Mehefin yn Istanbul, Twrci, yn canolbwyntio ar HTA fel lluniwr systemau - gan dynnu sylw at sut y gall gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gefnogi gofal iechyd mwy ymatebol, teg a chynaliadwy.
Cyflwynodd Dr Stephanie Francis, Rheolwr Rhaglen VPAG, boster i gynulleidfa ryngwladol o arbenigwyr HTA, gan arddangos gwaith o Gymru ar lwyfan byd-eang.

**Darllenwch ragor yma**




### Staff AWTTC yn y digwyddiad Rhwydweithio ac Addysg: Poen Parhaus mewn Gofal Sylfaenol

Croesawodd y digwyddiad weithwyr proffesiynol gofal sylfaenol ac eilaidd i rannu gwybodaeth, trafod heriau ac archwilio ffyrdd ymarferol o roi cefnogaeth well i bobl sy'n byw gyda phoen parhaus.
Diwrnod gwych ar gyfer cydweithio a dysgu ar y cyd.
Roedden ni’n hapus i arddangos ein hadnoddau ar gyfer rheoli poen drwy ddulliau ffarmacolegol.

**Ewch i'r adnoddau**




## Canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer rhagnodi gwrthretrofirol HIV-1

Pwrpas Canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer rhagnodi gwrthretrofirol HIV-1 yw cefnogi cysondeb ledled Cymru mewn rhagnodi therapi gwrthretrofirol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn ddarbodus ar gyfer trin HIV-1.

**Darllenwch ragor yma**

---



## Dysgu dros Ginio - Mehefin 2026

Cynhaliwyd y sesiwn ar-lein awr o hyd ddiwethaf ar 30 Mehefin 2026. Mae'r sesiynau'n cynnwys diweddariadau ar ddau faes therapiwtig, crynodeb o newyddion rhagnodi cenedlaethol a newidiadau mewn ymarfer, gyda'r cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod pob pwnc gydag arbenigwyr blaenllaw.

Roedd y sgyrsiau ar 30 Mehefin yn cynnwys:
Newyddion defnyddiol AWTTC gan yr Uwch Fferyllydd Sabrina Rind; Hunan-weinyddu meddyginiaethau gan Jane Hoidn, Prif Fferyllydd Gwasanaethau Cleifion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a diweddariad ar therapiwteg cyflym gan Dr Tessa Lewis, Meddyg Teulu, BIP Aneurin Bevan a Chynghorydd Meddygol AWTTC.

Gwyliwch y cyflwyniadau **yma** .
Bydd y sesiwn Dysgu dros Ginio nesaf yn digwydd ar 15 Hydref.

**Darllenwch ragor yma**



## Newyddion Diweddaraf gan y Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG)

Cyfarfu PAPIG ar 18 Mehefin, gyda chyflwyniadau yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys rôl Pwyllgorau Moeseg Ymchwil wrth amddiffyn hawliau, diogelwch a llesiant cyfranogwyr mewn astudiaethau clinigol; galluogi optometryddion yng Nghymru i ragnodi meddyginiaethau ar gyfer trin cyflyrau llygaid brys; a Blueteq, sy'n helpu i gyflymu mynediad at driniaethau arbenigol wrth sicrhau diogelwch cleifion a chefnogi gofal cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ledled Cymru.

Cynhelir cyfarfod nesaf PAPIG ym mis Medi.

Byddem wir yn hoffi clywed barn a phrofiadau cleifion a gofalwyr ac felly bydd amser i drafod a holi cwestiynau.

**Darllenwch ragor yma**

---

### Rhestr feddyginiaethau Blueteq GIG Cymru

Defnyddir system HCD Blueteq i awdurdodi'r defnydd o gyffuriau cost uchel a gymeradwywyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar draws ystod gyfan o gyflyrau gofal iechyd.
Mae'r rhestr feddyginiaethau wedi'i diweddaru. Gallwch gael mynediad at y fersiwn ddiweddaraf o'r rhestr **yma**.

## Newyddion Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)



### Cyngor meddyginiaethau newydd ar gyfer GIG Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyngor gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar gyfer tri meddyginiaeth.

**Mai 2026**


**Emicizumab (Hemlibra®)**

**Progesterone (Prometrium®)**

**Budesonide (Jorveza®)**


**Darllenwch ragor yma**

## Newyddion Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)




### Fersiynau diweddaraf o 'adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru' ac 'adroddiadau cyfnodau rhagnodi GIG Cymru' wedi'u cyhoeddi

Mae Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU), uned




### Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2025–2026: Ffocws ar hyd y

ddadansoddol AWTTC, wedi datblygu dangosfwrdd er mwyn adrodd ar gynnydd mewn lleihau ôl-troed carbon anadlyddion a ddefnyddir ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru.

Gwneir hyn i gynorthwyo i gyrraedd targed Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru ar gyfer cynyddu’r defnydd o anadlyddion cynhesu byd-eang isel posibl i 80% o gyfanswm yr anadlyddion a ddyroddir erbyn 2025.

**Darllenwch ragor yma**

## cwrs gwrthfiotig ar gyfer haint y llwybr anadlol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth atodol i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn adroddiadau chwarterol y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPI) er mwyn darparu darlun mwy manwl o arferion presgripsiynu gan bractisau meddygon teulu ledled Cymru.

**Read more**

# Welsh National Poisons Unit (WNPU) News



## Mynychodd NPIS Caerdydd 46ain Gyngres Cymdeithas Ewropeaidd y Canolfannau Gwenwyn a Thocsicolegwyr Clinigol

Mynychodd tîm NPIS Caerdydd i Gyngres 46ain Cymdeithas Ewropeaidd Canolfannau Gwenwyn a Thocsicolegwyr Clinigol yn Vilnius, Lithwania.

**Darllenwch ragor yma**

# Newyddion Canolfan Cerdyn Melyn Cymru (CCM)

## Adrodd am sgil effeithiau meddyginiaethau a brechlynnau

Gall aelodau’r cyhoedd a chlinigwyr adrodd am sgil effeithiau a amheuir meddyginiaethau, brechlynnau a dyfeisiau meddygol trwy’r Cynllun Cerdyn Melyn. Gall pawb helpu i wneud meddyginiaethau’n fwy diogel trwy adrodd am sgil effeithiau i’r Cynllun Cerdyn Melyn. Gall pob meddyginiaeth achosi sgil effeithiau. Efallai na fydd rhai yn hysbys eto, felly dyna pam ei bod yn bwysig i bobl adrodd i’r Cynllun Cerdyn Melyn.




**Darllenwch ragor yma**

# Newyddion Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (GCFC)




## Wedi 'i Gyhoeddi: Rhestr o Feddyginiaethau Diogel ar gyfer Porffyria 2026

Rhestr o Feddyginiaethau Diogel ar gyfer Porffyria 2026 bellach ar gael wefan WMAS.

Caiff y rhestr wedi'i diweddaru hon, a gynhyrchwyd ar y cyd gan Wasanaeth Gwybodaeth am Feddyginiaethau Porffyria y DU (UKPMIS) a Gwasanaeth Porffyria Caerdydd, ei chefnogi gan y Gwasanaeth Porffyria Acíwt Cenedlaethol (NAPS).

Gallwch weld y rhestr lawn **yma**.




## Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru yn y Gyngres Fferylliaeth Glinigol

Yn ddiweddar, mynychodd aelod o dîm Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (WMAS) y Gyngres Fferylliaeth Glinigol yn Llundain, gan ymuno â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o bob cwr o'r DU i ddysgu, rhwydweithio a rhannu arfer gorau.

Mae mynychu digwyddiadau fel y Gyngres Fferylliaeth Glinigol yn helpu tîm WMAS i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n dod i'r amlwg, cryfhau rhwydweithiau proffesiynol a pharhau i ddarparu cyngor o ansawdd uchel ar feddyginiaethau ledled Cymru.

---

**Cofrestrwch i gael cylchlythyr AWTTC wedi'i anfon yn mewnflwch**

**AWTTC** | **Cysylltu â ni** | **Polisi Preifatrwydd**

Wales NHS | The Routledge Academic Centre University Hospital Llandough Penlan Road | Penarth, CF64 2XX GB

Unsubscribe | Update Profile | Constant Contact Data Notice

Constant Contact
Try email marketing for free today!